# Mi dafla' 'maich oddi ar fy ngwar

(I will throw my burden down altogether)

John Francis, 1827

Tyddewi
CM




**Mi dafla' 'maich oddi ar fy ngwar**
**Wrth deimlo dwyfol loes;**
**Euogrwydd fel mynyddoedd byd**
**Dry'n ganu wrth dy groes.**

**Os edrych wnaf i'r dwyrain draw,**
**Os edrych wnaf i'r de,**
**Ymhlith a fu, neu ynteu ddaw,**
**'Does debyg iddo fe.**

**Fe roes ei ddwylo pur ar led,**
**Fe wisgodd goron ddrain**
**Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn**
**Fel hyfryd liain main..**

**Esgyn a wnaeth i entrych nef**
**I eiriol dros y gwan;**
**Fe sugna f'enaid innau'n lân**
**I'w fynwes yn y man.**

**Ac yna caf fod gydag ef**
**Pan êl y byd ar dân,**
**Ac edrych yn ei hyfryd wedd,**
**Gan' harddach nag o'r blaen.**

William Williams